# Cyfeillion

**Gwanwyn 2023**

# Seindorf Beaumaris Band

## Ac rydym yn ôl …

Mae cryn dipyn o amser wedi mynd heibio ers i'r cylchlythyr diwethaf gael ei gyhoeddi ac felly mae hwn yn rifyn hirach nag arfer fel y gallwn ddal i fyny ar y 3 blynedd diwethaf. Roedd y bwlch o ganlyniad i'r pandemig a'r cyfnodau clo, ond fel y byddwch yn darllen yn y News Catchup daliodd y Bandiau Ieuenctid a'r Bandiau Hŷn i gario 'mlaen ac maent wedi cael llwyddiannau sylweddol. Mae'r band Ieuenctid yn Bencampwyr Perfformiad Cenedlaethol ac mae'r band Hŷn wedi codi o Adran 3 i gystadlu yn Adran 1. Mae gan y band Iau nifer o gerddorion ifanc brwdfrydig newydd ac mae'r band Canolradd yn mynd o nerth i nerth.

Yn anffodus, rhwystrodd y pandemig ddathliadau canmlwyddiant Seindorf Beaumaris yn 2021, trueni mawr gan fod llawer i'w gofio a'i gymeradwyo dros gyfnod mor hir a disglair. Dyma'r llun hynaf sydd ym meddiant y band – os allwch chi roi enw i unrhyw un o'r chwaraewyr yma neu os oes gennych chi unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb, cofiwch roi gwybod i'r band.



*Seindorf Beaumaris 1921*

Effaith ddifrifol arall COVID fu'r effaith ar y bandiau ac yn arbennig ar weithgareddau codi arian y Cyfeillion. Mae llwyddiant y bandiau yn dibynnu ar ymdrechion pybyr holl 'deulu' estynedig Seindorf Biwmares sy'n codi arian i gynnal adnodd lleol mor bwysig. Bwriad y bandiau yw trefnu amrywiol ddigwyddiadau codi arian a mawr obeithiwn y parhawn i gael eich cefnogaeth werthfawr chi. Rydym eisiau ehangu'r cylch trwy recriwtio mwy o Gyfeillion ac ailddechrau gweithgareddau codi arian, cefnogi a chyhoeddusrwydd. Yn y cyfamser, diolch i'r holl Gyfeillion presennol am eich cefnogaeth barhaus.

Mae codi arian mor bwysig oherwydd er bod gweithgareddau'r bandiau wedi'u cwtogi dros y blynyddoedd diwethaf, parhaodd treuliau anochel. Yn 2021 a 2022 manteisiwyd ar y cyfle i wneud rhai atgyweiriadau angenrheidiol ar ystafell y band, peth ohono yn saernïol ac angen sylw brys.

### Digwyddiadau i Ddod:

Sadwrn 29 Ebrill 2023    10.30 am – 12.30 pm
Bore Coffi
Trefnir gan fandiau Iau a Canolradd
Neuadd y Dref Beaumaris

Gwener 19 Mai 2023    7.30 pm
Cyngerdd - band Hŷn Beaumaris
Gwesty'r Bulkley

Gwener 26 Mai   7.30 pm (amser i'w gadarnhau)
Cyngerdd Gŵyl Beaumaris
Canolfan Beaumaris

Gwener 7 Gorffennaf 2023    7.00 pm
Bingo Haf
Bandroom Beaumaris

Sadwrn 15 Gorffennaf 7.30 pm
Cyngerdd Haf – Pawb
Canolfan Beaumaris

## Gwefan newydd

Er mwyn helpu'r Cyfeillion i ledaenu newyddion am y band, ei gefnogi a chodi arian, mae gennym bellach ein gwefan ein hunain: www.friendsofbeaumarisband.org.uk

Byddwn yn dal i gynhyrchu Cylchlythyrau o bryd i'w gilydd ond bydd newyddion yn cael eu cyhoeddi ar y wefan yn gyntaf, newyddion am y band ac hefyd am y Cyfeillion , ac os byddwch yn dod yn 'danysgrifiwr' byddwch yn gallu rhoi sylwadau ac ychwanegu at y newyddion eich hun. Bydd gan y wefan hefyd restr gyflawn o ddyddiadau digwyddiadau'r bandiau, archif newyddion a chopïau o gylchlythyrau blaenorol. Gobeithiwn yn fawr y bydd rhestr benodol o weithgareddau cefnogi band/ codi arian o fudd i'r Cyfeillion gyda chyfleuster 'cofrestru' fel y gallwn ni i gyd weld lle gallwn ni helpu fwyaf.

Mae'n ddyddiau cynnar yn natblygiad y wefan ond cymerwch gip arno, a chysylltwch â ni i fewngofnodi i ddod yn danysgrifiwr.

# Newyddion Seindorf

## Llongyfarchiadau





Mae mis Mawrth wedi gweld dau berfformiad cystadlu llwyddiannus gan y Band Hŷn a'r Band Ieuenctid. Yn Abertawe ar y 18fed daeth y Band Hŷn yn ail yng nghystadleuaeth Adran Gyntaf Rhanbarth, gan gymhwyso'r band i gystadlu ym Mhencampwriaethau Bandiau Pres Cenedlaethol ym mis Medi.

Y penwythnos canlynol gwelwyd y band Ieuenctid yn fuddugol yn Stockport, lle daethant yn Bencampwyr Prydain yn Adran Berfformio Pencampwriaethau Bandiau Pres Ieuenctid Cenedlaethol Prydain, gydag Osian Maloney yn ennill gwobr yr unawdydd gorau.

## Ymweliad â Norwy

Mae Gwyn Evans, cyn Gyfarwyddwr Cerdd Band Seindorf Biwmares, yn dod â'i Fand Ieuenctid o Norwy i ymweld â ni ym Miwmares ym mis Mehefin. Bydd dyddiadau a manylion pryd y gallwch eu gweld a'u clywed yn cael eu cyhoeddi maes o law, ond mae'n saff dweud y bydd yn hyfryd gweld Gwyn eto a mwynhau clywed ei fand yn chwarae.

## Recriwtio Bandiau Iau

Yn y 'Newyddion Dal i Fyny' nodwn fod pedwar cyn-aelod ifanc o Seindorf Biwmares wedi cystadlu yn Neuadd Albert yn cystadlu fel aelodau o fandiau gwych iawn yn ddiweddar. Mae Biwmares yn gwneud gwaith ardderchog o gyflwyno pobl ifanc i greu cerddoriaeth a datblygu eu doniau, ac mae'r cyfan yn dechrau gyda'r Band Iau.

Mae'r Band Iau yn gwneud yn dda ond mae seddi gwag a lle i lawer mwy o aelodau. Lledaenwch y gair ac anogwch blant ifanc i ddod i roi cynnig arni. Rydyn ni'n gwybod y gall arwain at brofiadau rhyfeddol.

# Newyddion Dal i Fyny

Torrodd sawl clo Covid 19 ar draws gweithgareddau'r Bandiau a gweithgareddau Cyfeillion y Band. Er hyn, mae cryn dipyn wedi digwydd ers y cylchlythyr diwethaf …

**2020**

Ar ddechrau 2020, cyn i'r pandemig stopio pethau yn stond, cymerodd Bari Gwilliam yr awenau fel Uwch Gyfarwyddwr Cerdd y Band ac ymhen dim daeth y band i frig y Drydedd Adran ym Mhencampwriaethau Cymru yn Abertawe. Yn ôl y beirniad, roedd "Biwmares mewn dosbarth ar ben ei hun". Enillodd Katherine Gaunt wobr yr offerynnwr ar y baritôn.



*Enillwyr Adran 3 yn Abertawe 2020*

Roedd y llwyddiant hwn yn dilyn ymlaen o lwyddiant mawr yng nghystadleuaeth 'Unawd ac Ensemble Gogledd Cymru' lle enillodd aelodau'r band (iau i hŷn) ddeuddeg gwobr a Biwmares ennillodd Band y Dydd.

Yn anffodus fe rwystrodd y Clo y Band Ieuenctid rhag arddangos eu doniau ym Mhencampwriaethau Ewrop yn Lithuania.

Ym mis Awst bu 400 aelod o 31 o gorau a 13 o fandiau pres yn cymryd rhan ym mhrosiect "Pont y Glaw" ar gyfer Eisteddfod AmGen gan greu un darn o gerddoriaeth dros Zoom, a gydlynwyd o stiwdio Band Biwmares (gweler y dolenni ar wefan Facebook a Friends). Ailddechreuodd ymarferion yn yr haf hefyd, gan gadw pellter cymdeithasol wrth gwrs, ar Lawnt Biwmares. Ond roedd cyfyngiadau clo parhaus yn golygu mai dim ond Bari allai gynrychioli'r band ar Sul y Cofio ac ni chafwyd Cyngerdd Nadolig ym mis Rhagfyr. Fodd bynnag, roedd ffilm hynod deimladwy a difyr, "Fred's Christmas" yn cofio cyngherddau blaenorol. *(https://www.facebook.com/beaumarisband/videos/784170305774741)*



*Pellter Cymdeithasol ar y Lawnt*

**2021**

Ar ôl y 3ydd Clo (a'r olaf?) ym mis Mai ailddechreuodd ymarferion pellter cymdeithasol *eto* yn yr Eglwys, y Ganolfan a'r ysgol. Roedd hyn yn effeithiol iawn oherwydd ar ddiwedd mis Mai, enillodd y Band Hŷn Adran 3 o ornest rithiol 'Whit Friday Marches', a drefnwyd gan fand Foden.

Ym mis Awst cafwyd llwyddiannau yn Eisteddfod Genedlaethol rithiol 2021 gyda buddugoliaethau yn Adrannau 2 a 3. Dilynwyd hyn gyda'r Band Hŷn yn dod yn ail yn y 'Pencampwriaethau Cenedlaethol' yn Cheltenham gan sicrhau dyrchafiad i'r Ail Adran.



*Cheltenham 2021*

Unwaith eto cafodd y Cyngerdd Nadolig ei ohirio oherwydd bod gormod o aelodau'r band gyda Covid. Fodd bynnag, gwnaed recordiadau rhithiol o holl berfformiadau'r bandiau *(gweler y dolenni amrywiol ar FB)* .

**2022**

Dechreuodd y Band Hŷn y flwyddyn yn wych drwy ddod yn Bencampwyr Ail Adran yng nghystadleuaeth y Bencampwriaeth Ranbarthol a gynhaliwyd yn Abertawe.



*Abertawe 2022*

Yn ôl adref, ddechrau mis Mai, daeth y bandiau at ei gilydd i orymdeithio am y tro cyntaf ers i'r Cyfnodau Clo ddechrau, gan arwain gyda balchder drwy'r dref yn y digwyddiad 'Beating the Bounds'. Ac wrth gwrs, digwyddiad arall wedi'r Clo oedd Cyngerdd yr Haf ym mis Gorffennaf, a fwynhawyd yn fawr gan bawb.

Ym mis Gorffennaf hefyd aeth y band o nerth i nerth, gan ennill Adran Dau yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd llwyddiant pellach gyda thrydydd safle yn Adran Dau ym Mhencampwriaethau Cenedlaethol Bandiau Pres yn Cheltenham yn golygu dyrchafiad i Adran Gyntaf 2023.

Yn chwarae i fandiau eraill, braf oedd gweld pedwar o gyn-aelodau Biwmares yn chwarae yn Rowndiau Terfynol Cenedlaethol yn Neuadd Albert.

Ar ddiwedd y flwyddyn, daeth y bandiau ynghyd i'r noson tân gwyllt ac hefyd yn y Cyngerdd Nadolig byw cyntaf ers tair blynedd, yn ogystal â'r Carolau arferol o gwmpas y dref ac yn Swyddfa Cyngor Ynys Môn.

Bu'n flwyddyn brysur; 3 chyngerdd, 3 gorymdaith, sawl bore coffi a digwyddiadau di-ri, ennill yr Ail Adran ddwywaith ac yna dyrchafiad yn y Pencampwriaethau Cenedlaethol. Llongyfarchiadau i bawb fu'n rhan o'r llwyddiant!



*Carolau yn Llangoed*



*2022 prysur*